# ADRODDIAD BLYNYDDOL YR IAITH GYMRAEG 2023–2024

Cymraeg



wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

www.wrecsam.gov.uk | www.wrexham.gov.uk

# Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 3

3. Cydymffurfiaeth â'r Safonau Darparu Gwasanaeth . . . . . . . . . . . .4

4. Cydymffurfiaeth â Safonau Llunio Polisïau . . . . . . . . . . . . . . . . . 5

5. Cydymffurfiaeth â Safonau Gweithredol . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 6

6. Cwynion . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .7

7. Hyfforddiant a Recriwtio . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 9

8. Llwyddiannau a Chamau Gweithredu'r Dyfodol . . . . . . . . . . . . .10

Atodiad 1 . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .12

# 1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Mabwysiadwyd Safonau'r Gymraeg 2016 ac mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio gydag 171 o Safonau. Mae'r Safonau hyn yn sicrhau bod y Cyngor yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ac yn parchu hawliau siaradwyr Cymraeg.

1.2 Mae'r Cyngor wedi croesawu cyflwyniad y Safonau a'r cyfleoedd i gynyddu darpariaeth gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r hawliau y maent yn eu cynnig i'r cyhoedd a'n staff. Rydym yn falch o'n hetifeddiaeth a'n diwylliant Cymreig a'r iaith Gymraeg yn Wrecsam. Mae'r Cyngor yn credu bod parchu a bodloni dewisiadau iaith ei gwsmeriaid yn ganolog i ofal cwsmer da ac effeithiol. Rydym yn darparu gwasanaethau i'r bobl fwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau ac mae sicrhau y gall unigolion gael mynediad at wasanaethau yn eu hiaith gyntaf yn arbennig o bwysig.

1.3 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth gydymffurfio â'r Safonau a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn Wrecsam. Mae meysydd i'w gwella o hyd, yn enwedig o ran recriwtio a datblygu'r gweithlu a bydd gwaith yn y maes hwn yn parhau yn 2023/24. Rydym wedi cryfhau'r cysylltiadau rhwng yr Iaith Gymraeg a Chynllun y Cyngor ac rydym yn parhau i sicrhau y caiff y Gymraeg ei phrif ffrydio yn ein holl flaenoriaethau a'n polisïau.

1.4 Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cael llai o gwynion trwy Gomisiynydd y Gymraeg, sy'n dangos ein bod bellach yn hunan-reoleiddio'n well ond hefyd yn ceisio darparu mwy o wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

1.5 Yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2021 mae lleihad o 0.7% wedi bod yn nifer cyffredinol y siaradwyr Cymraeg o'i gymharu â 2011, sydd oddeutu 700 yn llai o siaradwyr Cymraeg 3-15 oed yn y fwrdeistref sirol. Er fod hyn yn siomedig, mae dadansoddiad dechreuol hefyd yn dangos cynnydd calonogol yn nifer y siaradwyr Cymraeg 16-44 oed yn Wrecsam, cynnydd o 1.7% o'i gymharu â 2011. Mae'r ddemograffeg hon yn hanfodol gan ei fod yn cynnwys pobl sy'n gadael addysg i ddechrau gwaith, y rhai sy'n cynllunio ar gyfer magu teulu a gwneud cais ar gyfer llefydd mewn ysgolion.

## 2. Cyflwyniad

2.1 Mae'r Gymraeg yn rhan o bortffolio Aelod Arweiniol yr Amgylchedd ac mae cyfrifoldeb uwch swyddog yn dod dan y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid, gyda chefnogaeth gan y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, sef Cefnogwr Iaith Gymraeg y Cyngor ar yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Caiff materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg eu cyfeirio i'r Bwrdd Gweithredol neu'r Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a Llywodraethu. Mae gan y Cyngor Grŵp Aelodau a Swyddogion Iaith Gymraeg.

2.2 Mae cyfrifoldebau gweithredol dros weithredu'r Safonau'n eistedd o fewn yr adran Llywodraethu a Chwsmeriaid. Y Pennaeth Gwasanaeth - Digidol sy'n cynnal trosolwg strategol gyda Swyddog Strategol y Gymraeg, dan reolaeth yr Arweinydd Cwynion a Chydymffurfiaeth y Gymraeg, sydd â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd dros gydymffurfio â'r Safonau. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol a chyflawni'r targedau a chamau gweithredu yn strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg 5 mlynedd y Cyngor.

2.3 Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin fel y nodir yn Safonau 158, 164 a 170 er mwyn adrodd ar gynnydd o ran cydymffurfedd a'r Safonau yn y meysydd canlynol: Darpariaeth Gwasanaeth, Gweithredol a Llunio Polisïau. Mae copi llawn o'r Safonau i'w weld **yma.**

2.4 Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024.

## 3. Cydymffurfiaeth â'r Safonau Darparu Gwasanaeth

3.1 Yn dilyn rhai ymgyrchoedd recriwtio llwyddiannus rydym wedi penodi mwy o siaradwyr Cymraeg yn ein Canolfan Gyswllt sydd bellach yn gallu darparu mwy o wasanaethau i breswylwyr yn Gymraeg. Rydym hefyd wedi penodi dau siaradwr Cymraeg arall yn ein canolfan gelfyddydau, marchnadoedd a diwylliant gan gynyddu eu tîm o siaradwyr Cymraeg i 6.

3.2 Er mwyn sicrhau bod pob gweithiwr yn ymwybodol o'r Safonau Darparu Gwasanaeth, rydym yn darparu gwybodaeth yn rheolaidd i reolwyr a staff am amryw agweddau ar y Safonau er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae gofyn i bob gweithiwr sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau a cheisio cyngor gan Swyddog Strategol y Gymraeg os nad ydynt yn siŵr am fater penodol. Yn 2023/24, roedd y Cyngor yn destun nifer o ymchwiliadau a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Gweler Adran 6.2, yr adrannau am gwynion ac ymchwiliadau.

3.3 Mae grŵp o Gefnogwyr y Gymraeg yn gweithredu o fewn y Cyngor. Nod y grŵp yw hybu'r Gymraeg ar draws y Cyngor, hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymysg staff, rhannu arfer da yn y meysydd gwasanaeth a chyfrannu at gynlluniau sy'n ceisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd y grŵp yn chwarae rôl bwysig wrth gynllunio a darparu'r Eisteddfod Genedlaethol 2025.

### 3.4 Gwersi Nofio Cyfrwng Cymraeg

O ganlyniad i gydweithrediad rhwng Cyngor Wrecsam, yr Urdd a Freedom Leisure, rydym bellach yn darparu gwersi nofio trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Urdd a Freedom Leisure i ehangu'r ddarpariaeth hon ar draws cyfleusterau hamdden eraill. Cynhelir gwersi yng Nghanolfan Hamdden Byd Dŵr bob dydd Mercher 17.15 – 17.45 a 17.45-18.15.

## 4. Cydymffurfiaeth â Safonau Llunio Polisïau

### 4.1 Castell-nedd Port Talbot v Comisiynydd y Gymraeg

Bu i achos diweddar rhwng Comisiynydd y Gymraeg a Chastell-nedd Port Talbot ddarganfod nad oedd y Cyngor wedi ystyried effeithiau ac effeithiau anuniongyrchol penderfyniad polisi yn gydwybodol. Dywedodd y Comisiynydd hefyd nad oedd y Cyngor, yn ystod y broses ymgynghori, wedi rhoi cyfle i'r cyhoedd awgrymu sut y gallai'r Cyngor ddiwygio neu newid y polisi i gyfyngu unrhyw effeithiau negyddol neu gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Apeliodd y Cyngor y penderfyniad drwy Dribiwnlys y Gymraeg, fodd bynnag, penderfynodd y Tribiwnlys gadw at benderfyniad y Comisiynydd. Mynychodd Swyddog Strategol y Gymraeg a'r Uwch Swyddog PIPS seminar a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Tachwedd 2023 i drafod yr achos hwn a'i oblygiadau. Yn dilyn adolygiad, roedd yn amlwg nad oedd Cyngor Wrecsam yn cydymffurfio'n llwyr â'r safonau hyn.

### 4.2 Modiwl E-Ddysgu - Gwasanaethau Dwyieithog – Canllawiau i Reolwyr ac Arweinwyr Tîm

Mae modiwl e-ddysgu newydd wedi cael ei ddatblygu 'Gwasanaethau Dwyieithog - Canllawiau i Reolwyr ac Arweinwyr Tîm' sy'n cynnwys canllawiau ar sut i gydymffurfio gyda'r safonau llunio polisïau ynghyd ag enghraifft o asesiad effaith diweddar. Mae'r modiwl yn orfodol i bob rheolwr ac arweinydd tîm yn y Cyngor yn cynnwys Prif Swyddogion.

### 4.3 Pecyn Asesu Effaith Integredig

Yn dilyn cyfarfod gydag uwch swyddog cydymffurfio Comisiynydd y Gymraeg, y Rheolwr Gwella Perfformiad a Phartneriaethau a Swyddog Strategol y Gymraeg, fe wnaethom ddiwygio a chryfhau adran iaith Gymraeg y pecyn asesu effaith integredig newydd i sicrhau ei bod yn bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg. Mae'r ffurflen yn gofyn i ddefnyddwyr uwchlwytho eu hasesiad effaith a darparu manylion pellach e.e. unrhyw fesurau lliniaru. Bydd asesiadau effaith y Gymraeg yn cael eu monitro'n rheolaidd gan Swyddog Strategol y Gymraeg.

## 5. Cydymffurfiaeth â Safonau Gweithredol

5.1 Mae'r Cyngor wedi creu safle dynodedig ar y fewnrwyd sy'n rhoi arweiniad ar y Safonau, yr hyn a ddisgwylir gan weithwyr wrth roi'r Safonau ar waith, cwestiynau cyffredin, hawliau siaradwyr Cymraeg a chyfleoedd i ddysgu'r iaith. Lansiwyd platfform mewnrwyd staff newydd yn 2021 a diwygiwyd yr holl ganllawiau i staff cyn symud y cynnwys i'r platfform newydd i sicrhau ei fod yn gyfredol a hawdd ei ddefnyddio.

5.2 Mae'r rhwydwaith siaradwyr Cymraeg o fewn y Cyngor yn cynnal grŵp 'Paned a Sgwrs yn Tŷ Pawb bob tair wythnos. Ei nod yw rhoi cyfle i staff sy'n dysgu Cymraeg i'w hymarfer, magu hyder a chlywed Cymraeg lafar anffurfiol. Mae hefyd yn bwysig bod siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn y Cyngor yn adnabod ei gilydd i gynyddu'r cyfleoedd i ymarfer siarad Cymraeg mewn amgylchedd cyfeillgar a chefnogol.

5.3 Mae pecyn meddalwedd Cysgliad wedi'i ddarparu i bob siaradwr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg yn y Cyngor sydd wedi gofyn amdano. Gall y defnyddiwr ei osod yn uniongyrchol hefyd trwy'r 'Ganolfan Feddalwedd' ar eu cyfrifiaduron personol a gliniaduron. Mae'n cynnwys dau ap, 'Cysill', sy'n gwirio gramadeg a sillafu, a 'Cysgeir', sy'n eiriadur Saesneg – Cymraeg digidol.

5.4 Mae adnoddau ar gyfer cefnogi dysgwyr a siaradwyr Cymraeg ar gael ar y fewnrwyd ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn ddefnyddiol.

5.5 Rhoddwyd cyfarwyddiadau ar sut i roi 'Iaith Gwaith' mewn llofnodion e-bost ac mae llofnodion e-bost awtomatig staff y cyngor bellach yn ddwyieithog. Yn ogystal mae teitlau swyddi staff i gyd yn ddwyieithog, felly hefyd negeseuon 'allan o'r swyddfa'. Adolygodd Swyddog y Gymraeg yr ymatebion awtomatig o'n cyfeiriadau e-bost cyhoeddedig i gyd, gan gysylltu gyda'r sawl nad oedd yn cydymffurfio gyda'r safonau, ac fe'u newidiwyd yn brydlon.

5.6 Mae enghreifftiau wedi'u recordio o negeseuon ffôn ar gael ar y fewnrwyd staff i'w defnyddio ar ddyfeisiau symudol neu beiriannau ateb staff.

5.7 Mae'r tîm Adnoddau Dynol wedi gwella adran asesu sgiliau iaith Gymraeg y ffurflen rheoli swyddi gwag. Mae hyn wedi arwain at ragor o swyddi'n cael eu hysbysebu fel 'Cymraeg yn Hanfodol' a'r rheiny lle mae angen dysgu Cymraeg i lefel y cytunir arni. Gofynnir i ymgeiswyr ar gyfer ein cynlluniau prentisiaeth a hyfforddiant a hoffent ddechrau dysgu Cymraeg fel rhan o'r cwestiynau cyn cyflogaeth yn eu cyfweliadau.

5.8 Mae sgiliau iaith staff i'w gweld yn yr adran Monitro Perfformiad yn Atodiad 1 isod.

## 6. Cwynion

6.1 Yn ystod 2023/24 ni dderbyniodd y Cyngor unrhyw gwynion gan y cyhoedd.

6.2 Mae'r Cyngor wedi bod yn destun 4 ymchwiliad a roddwyd ar waith gan y Dirprwy Gomisiynydd mewn ymateb i gwynion a wnaed yn uniongyrchol iddi hi ynglŷn â diffyg cydymffurfedd honedig y Cyngor â'i Safonau Iaith Gymraeg. Cynhaliwyd yr ymchwiliadau hyn o dan adran 71 Mesur y Gymraeg (2011) ac maent wedi'u crynhoi isod.

| Cyf | Derbyniwyd | Pwnc y Gŵyn | Cwyn | Adran | Canlyn-iad | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CS1114 | 28/04/2023 | Cyfarfodydd | Dim cyfieithydd Cymraeg - Saesneg swyddogol mewn cyfarfod. | Llywodraethu a Chwsmeriaid | Cadarnhawyd | Darparu canllawiau diwygiedig i staff ar gynnal cyfarfodydd gyda siaradwyr Cymraeg a diwygio'r modiwl e-ddysgu staff. |
| CS1168 | 03/07/2023 | Gwefan - Porth | System dalu Treth y Cyngor ar-lein - cyfeiriadau yn Saesneg yn unig | Cyllid a ThG | Cadarnhawyd | Mae'n rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wneud trefniadau i sicrhau bod cyfeiriadau yn ymddangos yn Gymraeg ar yr adnodd talu ar-lein ar y wefan, fel nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| CS1185 | 08/08/2023 | Dogfenna | Nid yw'r templedi ar gyfer ardrethi annomestig yn cydymffurfio ac mewnosod gwybodaeth unigryw yn Saesneg yn unig. | Cyllid a ThG | Cadarnhawyd | Mae'n rhaid i'r Cyngor addasu ei dempledi ar gyfer gohebiaeth yn ymwneud â hysbysiadau treth annomestig i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Safonau.<br><br>Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod trefniadau gyda'r cwmni meddalwedd sy'n gyfrifol am filiau treth yn ddigonol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau o hyn allan. |

| Cyf | Derbyniwyd | Pwnc y Gŵyn | Cwyn | Adran | Canlyn-iad | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CS1195 | 05/10/2023 | Gwefan - Porth | Porth Derbyniadau Ysgol - geiriau Saesneg ar y fersiwn Gymraeg. 'Ardal lawrlwytho dogfen' rhiant yn Saesneg yn unig. | Addysg ac Ymyrraeth Gynnar | I ddod | |

## 6.3 Camau Gorfodi

Yn dilyn ymchwiliadau a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, mae'r Cyngor yn derbyn hysbysiadau gorfodi pan mae cwynion yn cael eu cadarnhau. Weithiau, mae'r camau gorfodi hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddiwygio prosesau a gweithdrefnau neu gyflwyno rhai newydd er mwyn osgoi achosion eraill o ddiffyg cydymffurfio. Rydym wedi cyflwyno nifer o fesurau cadarnhaol o ganlyniad i hyn, e.e. e-fodiwlau hyfforddiant gorfodol i bob aelod o staff:

- 'Safonau'r Gymraeg - Canllawiau ar gyfer cyflawni gwasanaeth dwyieithog' ar-lein.
- 'Ymdrin â Galwadau Ffôn yn y Gymraeg' - I bob aelod o staff sy'n ateb galwadau ffôn gan y cyhoedd.
- 'Ymwybyddiaeth Iaith' - Pob aelod o staff ac aelodau etholedig.

Bydd y modiwlau hyn ar gael yn fuan i'n partneriaid wedi'u contractio sy'n darparu swyddogaeth sy'n seiliedig ar wasanaeth cwsmer, i'n preswylwyr neu ymwelwyr.

Mae modiwl pellach wedi cael ei lansio - 'Gwasanaethau Dwyieithog - Canllawiau i Reolwyr ac Arweinwyr Tîm' sy'n fodiwl gorfodol i bob rheolwr ac arweinydd tîm. Mae hwn yn darparu canllawiau megis; Caffael, cynllunio'r gweithlu a phenderfyniadau polisi.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Chomisiynydd y Gymraeg a'i swyddogion i sicrhau ein bod yn dehongli'r Safonau'n gywir wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

## 7. Hyfforddiant a Recriwtio

7.1 Rydym yn parhau i brofi problemau wrth benodi siaradwyr Cymraeg i rolau rheng flaen. Er gwaethaf ein hymdrechion gorau i gynyddu gwelededd ein swyddi gwag, mae rhai rheolwyr yn derbyn nifer fechan iawn o geisiadau am swyddi gan siaradwyr Cymraeg addas. Mae ein swyddog y Gymraeg, ynghyd â chynrychiolwyr o fforwm sirol y Gymraeg wedi ffurfio is-grŵp 'Recriwtio yn y Gymraeg' i weithio mewn partneriaeth ar draws Sir y Fflint a Wrecsam i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd hyn. Cafodd tîm y wasg a marchnata'r Cyngor gyfle i dreialu rhoi hysbysebion am dâl ar safleoedd swyddi ar-lein megis LinkedIn ac Indeed.com, sydd wedi bod yn llwyddiannus yn cynyddu'r nifer o ymgeiswyr; bydd hyn yn parhau yn amodol ar gyllideb.

7.2 Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld cynnydd cadarnhaol yn y nifer o staff sy'n dysgu Cymraeg yng Ngholeg Cambria, ac ar y cyrsiau 'Cymraeg Gwaith' ar-lein. Fel y manylir arno yn Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022-2027, bydd pob aelod o staff ac aelodau etholedig yn anelu i gyflawni lefel 1 o leiaf erbyn 2027, ac felly rydym yn disgwyl y bydd niferoedd yn cynyddu'n sylweddol, ac rydym yn gobeithio y bydd rhagor o staff yn dysgu i lefelau uwch wedi hynny.

| DANGOSYDD PERFFORMIAD | GWIR BERFFORMIAD |
|---|---|
| Nifer a % y staff sydd wedi cael hyfforddiant Cymraeg i lefel cydymffurfio benodol. | **Yn ystod 2023/24**<br><br>roedd 17 aelod o staff yn astudio Cymraeg drwy Goleg Cambria sy'n cyfateb i 0.54% o'r gweithlu nad ydynt yn athrawon. |
| Nifer a % y staff sy'n cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith. | **Yn ystod 2023/24**<br><br>cwblhaodd **520** aelod o staff y modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth Iaith, a oedd yn cyfateb i 16.48% o'r gweithlu.<br><br>yfanswm nifer y staff sydd wedi cwblhau'r modiwl hyd yma yw **2393** sef 75.86% o'r gweithlu. |
| Y nifer o swyddi newydd a swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn a gafodd eu categoreiddio fel swyddi lle'r oedd: | sgiliau Cymraeg yn hanfodol - **46**<br><br>angen dysgu sgiliau iaith Gymraeg pan benodir i'r swydd - **9**<br><br>sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol - **364**<br><br>sgiliau iaith Gymraeg yn ddiangen - **364** |
| Nifer a % y staff yng ngwasanaeth y sefydliad sy'n gallu siarad Cymraeg (i) Yn ôl adran (ii) Yn ôl graddfa neu swydd (iii) Fesul gweithle | Gweler Atodiad 1 (isod) am ragor o fanylion |

# 8. Llwyddiannau a Chamau Gweithredu'r Dyfodol

## 8.1 Addysg Gymraeg yn Wrecsam

Cynhaliwyd digwyddiad ar 19 Ionawr yn Tŷ Pawb i hyrwyddo a dathlu addysg cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam. Roedd y clwstwr ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r Gwasanaeth Hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg wedi gweithio gyda'i gilydd i lunio **ffilm hyrwyddo** a lansiwyd yn y digwyddiad hwn ac fe lansiwyd gwefan newydd i hyrwyddo a chefnogi'r cynnig cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam. Mae'r wefan, a ddatblygwyd gan y Gwasanaeth Hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg, wedi cael ei sefydlu mewn cydweithrediad â budd-ddeiliaid fforwm Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg er mwyn sicrhau bod y wefan yn borth un stop i deuluoedd sydd eisiau dysgu mwy am addysg cyfrwng Cymraeg a chyfleoedd Cymraeg yn Wrecsam. Yn dilyn y digwyddiad, cafwyd prynhawn o ddigwyddiadau a stondinau gwybodaeth i'r cyhoedd eu mwynhau a dysgu mwy am y cynnig cyfrwng Cymraeg.

8.2 Gyda'r posibilrwydd cyffrous o gynnal yr Eisteddfod Genedlaethol 2025, mae hyn yn rhoi cyfle gwych i ni hyrwyddo'r iaith a diwylliant Cymru i'n preswylwyr ac ymwelwyr, yn y cyfnod cyn, ac yn ystod y digwyddiad ei hun. Rydym eisiau i'r gymuned gyfan fod yn rhan o'r dathliadau, a dyma fydd un o'r themâu parhaus wrth gynllunio am, a darparu'r digwyddiad cenedlaethol hwn. Mae Swyddog Strategol y Gymraeg ar gyfer y Cyngor yn rhan o'r grŵp prosiect mewnol a'r pwyllgor gwaith lleol ar gyfer yr Eisteddfod.

## 8.3 HWB Cymraeg @ Focus Wales 2023 – May 04

Unwaith eto, roedd y digwyddiad yn llwyddiant mawr gan gynnal amrywiaeth o weithgareddau i blant, gwersi Cymraeg yn ystod y dydd, yna adloniant Cymraeg a rhyngwladol newydd a sefydledig gyda'r nos. Mae creu rhagor o gyfleoedd i breswylwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol yn gam pwysig o ran normaleiddio ei defnydd dyddiol ac o ran gwella canfyddiad Wrecsam fel cyrchfan ffyniannus Cymraeg ei iaith.  Mae rhoi cyfle i blant yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ddefnyddio eu Cymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth cyn bwysiced, ni waeth faint sydd ganddynt.

Eleni, denodd yr HWB Cymraeg sylw cadarnhaol gan y wasg gan Radio Cymru, Radio Wales ac S4C gyda chyfweliadau byw o'r tu allan i'r Tipi, Tŷ Pawb ar gyfer y rhaglen deledu Gymraeg, 'Heno.'

## 8.4 Dydd Gŵyl Dewi 2024

Mewn partneriaeth â Menter Iaith Fflint a Wrecsam, gwnaethom lwyddo i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda gorymdaith enfawr trwy ganol y Ddinas dan arweiniad Band Cambria a gyda pherfformiadau gan Andy Hickie, corau lleol, cantorion, bandiau a grwpiau dawns.   Roedd y digwyddiad yn llwyddiant enfawr gyda channoedd mwy o blant a phreswylwyr yn cymryd rhan nag erioed. Roedd y digwyddiad eleni yn arbennig iawn gydag ymweliad gan bum preswylydd o Batagonia, ynghyd â chriw ffilmio a oedd yno i ddogfennu eu hymweliad â Wrecsam. Bydd hyn yn rhan o drydedd cyfres y rhaglen ddogfen Welcome to Wrexham

## 8.5 Dydd Miwsig Cymru

Fe gynhalion ni ddeuddydd o gerddoriaeth Cymraeg a dwyieithog mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru, Focus Wales a Tŷ Pawb i ddathlu Dydd Miwsig Cymru. Roedd rhai o fandiau ac artistiaid gorau a newydd Cymru wedi cymryd rhan. Mae'r digwyddiad hwn nawr yn cael ei ystyried fel prif ddigwyddiad DMC yng Ngogledd Cymru, ac mae'n mynd o nerth i nerth bob blwyddyn.




## 8.6 Cymraeg yn y Gweithle – Ysgol Bryn Alyn – Dydd Mercher 6 Mawrth 2024

Mewn partneriaeth gyda Gyrfa Cymru, Cyngor Wrecsam a chyflogwyr mawr lleol, roedd y digwyddiad rhwydweithio cyflym yn gweld grwpiau o ddisgyblion blwyddyn 10 yn treulio sesiynau 10 munud gyda phob cyflogwr, ac yn eu holi nhw ar fanylion megis eu gwaith bob dydd, faint o Gymraeg maent yn defnyddio yn ystod y diwrnod gwaith a'r math o sgiliau a chymwysterau sydd eu hangen i gyflawni eu rôl.

Mae gan y disgyblion sy'n mynychu gyfle i siarad gyda staff o sefydliadau gan gynnwys:

- Rhwydweithiau Ynni Scottish Power
- Cymdeithas Adeiladu'r Principality
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Dŵr Cymru
- DFS4 / Syniadau Mawr Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Excell Supply
- Coleg Cambria
- Menter Iaith
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Mae'r digwyddiadau hyn yn flynyddol bellach, ac yn gam pwysig tuag at greu gweithlu dwyieithog at y dyfodol.

# Atodiad 1

### Monitro Sgiliau Iaith Gymraeg Gweithwyr

## Cyflwyniad

Mae gennym dri chategori yr ydym yn casglu data ar eu cyfer fel rhan o'n gwaith o fonitro sgiliau iaith Gymraeg ein staff:

1) Gwrando/Siarad
2) Darllen/Deall
3) Ysgrifennu

Ym mhob un o'r categorïau hyn, gofynnir i weithwyr asesu/cofnodi eu lefel eu hunain o allu yn y Gymraeg yn seiliedig ar y meini prawf canlynol:

Lefel 0 - Dim o gwbl/Mynediad

Lefel 1 - Ychydig/Sylfaen

Lefel 2 - Canolradd/Rhywfaint

Lefel 3 - Uwch/Cymedrol

Lefel 4 - Llawn Hyfedr

Lefel 5 - Llawn/Hyfedr (Technegol)

Darperir y wybodaeth hon gan weithwyr yn ystod y cyfnod recriwtio, pan fydd gweithiwr yn diweddaru eu cofnod personol neu (mewn rhai adrannau) yn ystod adolygiad datblygiad personol.

Mae'r data hwn yn seiliedig ar weithwyr y Cyngor (ac eithrio gweithwyr addysg mewn ysgolion) fel yr oeddent ar **31/03/2023**

## GWEITHWYR Â SGILIAU IAITH GYMRAEG MEWN 1 CATEGORI NEU FWY - 2023/24

| Graddfa | Nifer o Weithwyr | Lefel 1 + | % | Lefel 3 + | % |
|---|---|---|---|---|---|
| G02 - G06 | 1636 | 139 | 8.5% | 20 | 1.2% |
| G07 - G10 | 1157 | 223 | 19.3% | 43 | 3.7% |
| G11 - G16 | 199 | 55 | 27.6% | 18 | 9.0% |
| Athrawon Soulbury, Ieuenctid ac a gyflogir yn Ganolog | 155 | 29 | 18.7% | 6 | 3.9% |
| Prif Swyddogion / Gweithrediaeth | 7 | 2 | 28.6% | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | **3,154** | **448** | **14.2%** | **87** | **2.8%** |

## GWEITHWYR Â SGILIAU IAITH GYMRAEG MEWN 1 CATEGORI NEU FWY - 2023/24

| Adran | Nifer o Weithwyr | Lefel 1 + | % | Lefel 3 + | % |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau'r Prif Weithredwr | 87 | 27 | 31.0% | 7 | 8.0% |
| Economi a Chynllunio | 221 | 47 | 21.3% | 11 | 5.0% |
| Addysg a'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar | 375 | 78 | 20.8% | 16 | 4.3% |
| Gwasanaethau Amgylchedd a Thechnegol | 427 | 21 | 4.9% | 4 | 0.9% |
| Cyllid | 173 | 40 | 23.1% | 5 | 2.9% |
| Llywodraethu a Gwasanaethau i Gwsmeriaid | 95 | 28 | 29.5% | 7 | 7.4% |
| Tai | 960 | 84 | 8.8% | 20 | 2.1% |
| Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol | 816 | 123 | 15.1% | 17 | 2.1% |
| **Cyfanswm** | **3,154** | **448** | **14.2%** | **87** | **2.8%** |